OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 3035

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran awdurdodau bilio yng Nghymru, a'r flwyddyn ariannol gyntaf y mae'r cynllun a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hi yw'r flwyddyn sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2014.

(4) Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012([1]) wedi eu dirymu.

([1]) O.S. 2012/3145 (Cy.317).